Astudiaeth Achos Pedro

Dyma fi, Pedro. Rwy'n byw mewn gwersyll ffoaduriaid o'r enw El Triunfo yn Guatemala. Ces fy ngeni yma. Tan ychydig flynyddoedd yn ôl, roedd rhyfel gwaedlyd iawn, hir iawn yn fy ngwlad.

Bryd hynny, roedd bywyd lle roedd fy rhieni'n arfer byw yn beryglus iawn a bu'n rhaid i fy rhieni adael eu pentre a dod yma i'r gwersyll i fod yn ddiogel. Maen nhw'n dweud wrtha i fod eu tŷ, yr ysgol a'r pentre cyfan wedi'u dinistrio ar ôl iddyn nhw adael y pentre.

Pedro, o Guatemala

Er nad yw'r gwersyll fel pentre', rydyn ni'n gwneud ein gorau i'w wneud yn lle da i fyw.

Yn y bore, rwy'n helpu fy mam i wneud y tortila* ac yna'n mynd gyda fy nhad i ofalu am yr anifeiliaid. Y peth gorau yw fy mod i'n mynd i'r ysgol yn y prynhawn. Am amser maith doedd dim ysgol yma, ond nawr rwy'n mynd bob dydd. Mae hyn yn bwysig iawn i fi gan fy mod eisiau bod yn feddyg pan fydda i wedi tyfu er mwyn gallu gofalu am y bobl lle rydyn ni'n byw.

*Bara gwastad wedi'i wneud o indrawn wedi'i falu. Bydd llawer o bobl Mecsico yn bwyta tortila i frecwast.

Nodyn: Mae hon yn stori wir, ond nid geiriau Pedro ei hun yw'r rhain.

© Oxfam